Trosolwg o ganlyniadau TGAU yng Nghymru – Haf 2019

Yr haf hwn cafodd saith o gymwysterau TGAU newydd eu dyfarnu am y tro cyntaf. Dyma ddiwedd taith ddiwygio sylweddol sy'n golygu bod gennym bellach set o gymwysterau TGAU a wnaed yng Nghymru i Gymru.

Mae cyfanswm o 28 o gymwysterau TGAU newydd wedi'u datblygu ar gyfer, ac wedi'u sefyll gan, ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cael eu hasesu a'u dyfarnu ar wahân i gymwysterau TGAU sy'n weithredol mewn mannau eraill yn y DU. Mae eu cynnwys wedi'i ddiweddaru, ac maent yr un mor heriol â chymwysterau TGAU eraill. Yn wahanol i gymwysterau TGAU newydd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym wedi cadw'r graddau A* i G, y mae colegau, prifysgolion a chyflogwyr yn eu hadnabod a'u deall.

Rydym wedi monitro'n agos y modd y mae CBAC yn cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn ac yn hyderus bod safonau wedi'u cynnal.

Penawdau

1. Yng Nghymru, mae'r gyfran o'r graddau a ddyfarnwyd ar radd A ac uwch yr haf hwn wedi gostwng ychydig. Ar radd C ac uwch, mae'r gyfran wedi cynyddu o 1.2 pwynt canran, ac ar radd G ac uwch, gwelwyd cynnydd o 0.8 pwynt canran.
2. Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd gan JCQ heddiw ar gyfer arholiadau a gynhaliwyd yr haf hwn, yng Nghymru a ledled y DU, gan fyfyrwyr o bob oed. Felly, ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru, nid yw'r canlyniadau hyn yn rhoi darlun llawn o'r holl gymwysterau TGAU y maent wedi'u cyflawni, oherwydd nid ydynt yn cynnwys unrhyw raddau ar gyfer cymwysterau TGAU y gallent fod wedi'u cyflawni mewn cyfresi arholiad blaenorol.
3. Yr haf hwn bu cynnydd yn nifer y cofrestriadau, gan adlewyrchu cynnydd ym mhoblogaeth pobl ifanc 16 oed a newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion.
4. Mae'r garfan o fyfyrwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU mewn rhai pynciau craidd yr haf hwn yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol.
5. Mae'r canlyniadau Saesneg Iaith ar gyfer dysgwyr 16 oed ar draws blwyddyn academaidd 2018/19 yn dangos gostyngiad o 4.1 pwynt canran ar radd A* i C o gymharu â 2017/18 – ar ôl cymryd graddau gorau myfyrwyr i ystyriaeth. Ar ôl monitro'r gwaith dyfarnu'n agos, rydym yn hyderus bod y ffiniau graddau wedi'u gosod yn briodol, a bod dyfarniad yr haf hwn yn deg i fyfyrwyr.
6. Mae gostyngiad o 11.7 o bwyntiau canran mewn canlyniadau ar radd C ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith, o gymharu â 2018. Mae'r garfan o fyfyrwyr a fu'n sefyll y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd yr haf hwn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol. Y cymhwyster newydd yw'r unig gymhwyster Cymraeg Ail Iaith sydd ar gael i ysgolion yr haf hwn. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd ysgolion yn gallu cofrestru myfyrwyr ar gyfer yr hen gymwysterau TGAU cwrs llawn neu gwrs byr mewn Cymraeg Ail Iaith neu Gymraeg Ail Iaith Cymhwysol.

Cymwysterau TGAU yng Nghymru

Mae gan y cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru sawl nodwedd allweddol, sef:

- mae eu cynnwys wedi'i ddiweddaru a'r asesiad yn gryfach;
- maent yr un maint â'r hen gymwysterau TGAU;
- maent naill ai'n gymwysterau unedol neu linellol;
- maent wedi'u cynllunio ar gyfer yr un ystod o fyfyrwyr ag mewn blynyddoedd blaenorol; a
- maent yn parhau i gael eu graddio A* i G.

Cymwysterau TGAU a safwyd yng Nghymru

Roedd cynnydd o 8.8% (271,761 yn 2018 i 295,690) yn nifer y cymwysterau TGAU a safwyd yng Nghymru'r haf hwn. Mae hyn yn bennaf oherwydd:

- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n gysylltiedig â gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr a gofrestrwyd yn gynnar ym Mlwyddyn 10 y llynedd yn dilyn y newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, sy'n golygu mai dim ond canlyniad cyntaf myfyriwr mewn pwnc y gellir ei ddefnyddio er mwyn mesur perfformiad ysgol. Mae cofrestriadau Blwyddyn 10 eleni yn debyg i'r llynedd, sy'n galonogol ac yn awgrymu y gallai patrymau cofrestriadau fod yn sefydlogi.

- Cynnydd o tua 0.7% yn y boblogaeth 16 oed yng Nghymru (amcangyfrif poblogaeth cenedlaethol 2016 Llywodraeth Cymru).

Mae'r newidiadau hyn ym maint a natur y garfan yn ystyriaethau hanfodol wrth ddehongli canlyniadau.

Cofrestriadau haf TGAU yn ôl grŵp blwyddyn, 2015 i 2019



Ffynhonnell: Cofrestriadau Haf Cymwysterau Cymru 2019; Cofrestiadau Haf Ofqual 2015-2017

Mae'r trosolwg hwn yn cynnwys cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn gan ddefnyddio'r data mwyaf perthnasol ac mae'n egluro sut y casglwyd y data hwn ynghyd. Mae pob tabl yn cynnwys canrannau cronnus a chyfanswm yr ymgeiswyr.

Canlyniadau TGAU Haf 2019: Cymru

O gymharu â chanlyniadau haf 2018:

- mae cyfran y canlyniadau y rhoddwyd gradd A* neu A iddynt wedi gostwng 0.1 pwynt canran i 18.4 %
- mae cyfran y canlyniadau y rhoddwyd gradd A* i C iddynt wedi cynyddu 1.2 pwynt canran 62.8 %
- mae cyfran y canlyniadau y rhoddwyd gradd A* i G iddynt wedi cynyddu 0.8 pwynt canran i 97.2 %

Tabl 1: Canlyniadau TGAU (pob oedran)

	2015	2016	2017	2018	2019
A*-A	19.2	19.4	17.9	18.5	18.4
A*-C	66.6	66.6	62.8	61.6	62.8
A*-G	98.7	98.7	96.9	96.4	97.2
Nifer yn sefyll yr arholiad	270,567	262,542	298,370	271,761	295,690

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Mae'r data yn cynnwys canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru yn ogystal â chymwysterau TGAU gradd 9-1 a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

Yng Nghymru'r haf hwn, mae'r gyfran o raddau A* ac A a ddyfarnwyd wedi gostwng ychydig, mae'r gyfran o raddau A* i C wedi cynyddu ac mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol (A * -G) i fyny.

Mae'n bwysig cofio mai dim ond arholiadau a gafodd eu sefyll yng Nghymru'r haf hwn gan fyfyrwyr o bob oedran y mae'r canlyniadau hyn yn cyfeirio atynt. Nid ydynt yn rhoi darlun llawn o'r cymwysterau TGAU a gyflawnwyd gan ddisgyblion 16 oed yng Nghymru oherwydd nid ydynt yn cynnwys graddau ar gyfer cymwysterau TGAU a gyflawnwyd mewn cyfresi arholiad blaenorol.

Mae'r garfan o fyfyrwyr a safodd arholiadau TGAU mewn rhai pynciau craidd yr haf hwn yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol. Mewn pynciau fel Mathemateg, Saesneg a'r Gymraeg, mae llai o'r myfyrwyr sydd ym Mlwyddyn 11 ar hyn o bryd wedi sefyll eu harholiadau cyn diwedd Blwyddyn 11, o gymharu â'r garfan flaenorol.

Mae nifer y myfyrwyr sy'n cymryd Llenyddiaeth Saesneg TGAU, wedi cynyddu'n sydyn eleni, gyda llawer o fyfyrwyr yn sefyll y cymhwyster ym Mlwyddyn 10 ac yn annhebygol o ail-gofrestru flwyddyn nesaf, pan fyddant ym Mlwyddyn 11. Gall hyn fod oherwydd mewn mwy o ysgolion, mae myfyrwyr yn astudio Llenyddiaeth Saesneg yn unig ym Mlwyddyn 10 ac Iaith Saesneg yn unig ym Mlwyddyn 11.

Mae'r holl newidiadau hyn yn golygu na all cymharu'r prif ganlyniadau ar gyfer arholiadau a gynhaliwyd yr haf hwn (2019) â chanlyniadau hafau blaenorol ddweud llawer wrthym.

Er mwyn helpu i wneud synnwyr o ganlyniadau'r haf hwn mewn pynciau unigol (Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg, Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd), mae'r trosolwg hwn yn cyfuno canlyniadau TGAU o gyfresi arholiadau blaenorol â chanlyniadau TGAU yr haf hwn er mwyn dangos y graddau gorau cyffredinol a gyflawnwyd gan bob disgybl 16 oed yng Nghymru ar ddiwedd Blwyddyn 11.

TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd

Mae nifer y myfyrwyr sy'n sefyll TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd wedi cynyddu eleni. Mae hyn oherwydd bod llai o fyfyrwyr yn sefyll arholiadau yn gynnar (a achoswyd fwy na thebyg oherwydd bod y radd o'r naill gymhwyster bellach yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion).

Tabl 3: Canlyniadau TGAU Mathemateg yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	4.7	5.1	5.9
A*-A	10.0	11.1	12.7
A*-C	45.7	43.7	49.4
A*-G	91.6	88.6	94.3
Nifer yn sefyll yr arholiad	40,829	28,701	33,368

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

Tabl 4: Canlyniadau TGAU Mathemateg-Rhifedd yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	5.2	3.9	4.7
A*-A	10.1	10.6	11.9
A*-C	46.2	46.5	50.5
A*-G	91.1	91.6	93.9
Nifer yn sefyll yr arholiad	32,260	22,448	24,105

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

O ystyried y newid sylweddol mewn patrymau cofrestru ar gyfer y cymwysterau hyn, ni ellir llunio casgliadau dibynadwy drwy gymharu canlyniadau pob myfyriwr yn haf 2018 a haf 2019. Er mwyn helpu i wneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn, dengys y data isod y radd orau a gyflawnodd myfyrwyr 16 oed mewn unrhyw gyfres arholiadau hyd at haf 2019 a chan gynnwys y gyfres honno.

Tabl 5: Canlyniadau TGAU Mathemateg A*-G (gradd orau myfyrwyr 16 oed)

	2016/2017	2017/2018	2018/2019
A*	9.4	9.3	9.1
A*-A	17.7	18.5	18.5
A*-C	60.0	60.4	58.8
A*-G	96.5	96.1	95.4
Nifer y myfyrwyr	30,812	29,926	30,345

Ffynhonnell: CBAC.
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys. Mae'r data am raddau gorau a gyhoeddwyd gan JCQ yn cynnwys canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU â'r graddau A* i G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yn ogystal â chymwysterau TGAU â'r graddau 9 i 1 a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

Tabl 6: Canlyniadau TGAU Mathemateg-Rhifedd A*-G (gradd orau myfyrwyr 16 oed)

	2016/2017	2017/2018	2018/2019
A*	7.8	7.6	6.8
A*-A	16.4	16.7	16.1
A*-C	58.5	59.6	58.1
A*-G	95.9	96.2	95.2
Nifer y myfyrwyr	30,683	29,655	30,073

Ffynhonnell: CBAC.
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys. Mae'r data am raddau gorau a gyhoeddwyd gan JCQ yn cynnwys canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU â'r graddau A* i G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yn ogystal â chymwysterau TGAU â'r graddau 9 i 1 a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

TGAU Saesneg Iaith

Mae nifer y myfyrwyr a safodd TGAU Saesneg Iaith wedi cynyddu'n sylweddol eleni. Mae hyn oherwydd bod llai o fyfyrwyr yn sefyll arholiadau yn gynnar (a achoswyd fwy na thebyg gan newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion) gan arwain at gynnydd yn nifer myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n sefyll arholiadau am y tro cyntaf yr haf hwn.

Tabl 7: Canlyniadau TGAU Saesneg Iaith yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	2.2	2.5	2.2
A*-A	10.4	9.3	10.5
A*-C	57.5	40.7	54.3
A*-G	98.3	98.1	98.4
Nifer yn sefyll yr arholiad	58,500	27,438	35,921

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

Safodd cyfran sylweddol fwy o fyfyrwyr Blwyddyn 11 na'r llynedd y cymhwyster am y tro cyntaf yr haf hwn. O ystyried y newid sylweddol hwn yn y patrwm cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn, ni ellir llunio casgliadau dibynadwy drwy gymharu canlyniadau pob myfyrwyr yn haf 2018 a haf 2019. Er mwyn helpu i wneud cymariaethau mwy ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn, dengys y data isod y radd orau a gyflawnodd myfyrwyr 16 oed mewn unrhyw gyfres arholiadau hyd at haf 2019 a chan gynnwys y gyfres honno.

Tabl 8: Canlyniadau TGAU Saesneg Iaith A*-G (gradd orau myfyrwyr 16 oed)

	2016/2017	2017/2018	2018/2019
A*	3.2	3.2	2.9
A*-A	14.1	13.3	13.0
A*-C	64.4	63.3	59.2
A*-G	98.6	98.7	98.6
Nifer y myfyrwyr	30,792	30,013	30,478

Ffynhonnell: CBAC.
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.
Mae'r data am raddau gorau a gyhoeddwyd gan JCQ yn cynnwys canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU â'r graddau A* i G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yn ogystal â chymwysterau TGAU â'r graddau 9 i 1 a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

Mae Tabl 8 yn dangos gostyngiad sylweddol mewn perfformiad ar raddau A* i C o 4.1%, sydd wedi'i egluro gan ostyngiad ar radd C. Mae ffiniau graddau'n is na'r llynedd, ac, ar ôl monitro'r pwnc yn agos, rydym yn hyderus eu bod wedi'u gosod yn briodol a bod dyfarniad yr haf hwn yn deg i fyfyrwyr.

Mae sawl eglurhad posibl am y gostyngiad hwn mewn perfformiad, gan gynnwys gwahaniaethau megis patrymau cofrestru newidiol dros y blynyddoedd diweddar, a newid mewn perfformiad myfyrwyr.

Hoffem ddeall y gostyngiad hwn yn fwy manwl, ac rydym yn bwriadu ymgymryd â gwaith yn yr hydref i lywio ein gwaith ni, a gwaith pobl eraill. Yn y cyfamser, bydd CBAC yn cyhoeddi ei Adroddiad Arholwyr, a fydd yn rhoi tipyn o fewnwelediad i arholiadau eleni.

TGAU Cymraeg Iaith

Mae nifer y myfyrwyr a safodd TGAU Cymraeg Iaith yr haf hwn wedi cynyddu; mae hyn yn dilyn gostyngiad mawr mewn cofrestriadau yn haf 2018, pan wnaeth cofrestriadau Blwyddyn 10 ostwng yn sydyn.

Tabl 9: Canlyniadau TGAU Cymraeg Iaith yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	3.7	4.1	4.1
A*-A	14.6	14.5	15.8
A*-C	72.0	71.2	73.1
A*-G	99.7	99.4	99.3
Nifer yn sefyll yr arholiad	6,422	4,848	5,210

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

O ystyried y newid sylweddol yn y patrwm cofrestru dros amser ar gyfer y cymhwyster hwn, ni ellir llunio casgliadau dibynadwy drwy gymharu canlyniadau pob myfyriwr yn haf 2018 a haf 2017. Er mwyn helpu i wneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn, dengys y data isod y radd orau a gyflawnodd myfyrwyr 16 oed mewn unrhyw gyfres arholiadau hyd at haf 2019 a chan gynnwys y gyfres honno.

Tabl 10: Canlyniadau TGAU Cymraeg Iaith A*-G (gradd orau myfyrwyr 16 oed)

	2017	2018	2019
A*	4.0	4.1	4.1
A*-A	15.6	14.8	15.7
A*-C	73.6	74.0	73.7
A*-G	99.6	99.5	99.4
Nifer y myfyrwyr	5,381	5,274	5,401

Ffynhonnell: CBAC. Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys. Mae'r data am raddau gorau a gyhoeddwyd gan JCQ yn cynnwys canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU â'r graddau A* i G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yn ogystal â chymwysterau TGAU â'r graddau 9 i 1 a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Mae nifer y myfyrwyr a safodd TGAU Llenyddiaeth Saesneg wedi cynyddu 22.8 i 28,931. Mae'r cynnydd sylweddol o 80.3% yn nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 a gofrestrwyd, o 5,190 i 9,355, yn egluro hyn i raddau helaeth. Achoswyd y newid hwn fwy na thebyg gan newidiadau sy'n caniatáu i radd orau myfyrwyr o'u cymwysterau iaith neu lenyddiaeth gyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol. Ar y cyfan, mae 99.1 % o'r myfyrwyr Blwyddyn 11 presennol wedi cyflawni TGAU mewn Llenyddiaeth Saesneg (a safwyd naill ai ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11) o gymharu â 99.2 % yn 2018.

Tabl 11: Canlyniadau TGAU Llenyddiaeth Saesneg yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	4.9	4.2	3.9
A*-A	22.4	20.8	19.1
A*-C	80.4	77.3	72.9
A*-G	99.5	99.0	99.2
Nifer yn sefyll yr arholiad	16,569	23,556	28,931

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

O ystyried y newid sylweddol yn y patrwm cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn ac er mwyn helpu i wneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn, dengys y data isod y radd orau a gyflawnodd myfyrwyr 16 oed mewn unrhyw gyfres arholiadau hyd at haf 2019 a chan gynnwys y gyfres honno.

Tabl 12: Canlyniadau TGAU Llenyddiaeth Saesneg A*-G (gradd orau myfyrwyr 16 oed))

	2016/2017	2017/2018	2018/2019
A*	4.1	4.5	4.2
A*-A	19.9	22.1	20.0
A*-C	77.1	79.4	74.6
A*-G	99.3	99.2	99.1
Nifer y myfyrwyr	21,925	20,317	24,599

Ffynhonnell: CBAC.
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys. Mae'r data am raddau gorau a gyhoeddwyd gan JCQ yn cynnwys canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU â'r graddau A* i G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yn ogystal â chymwysterau TGAU â'r graddau 9 i 1 a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

TGAU Llenyddiaeth Gymraeg

Mae nifer y myfyrwyr a safodd TGAU Llenyddiaeth Gymraeg wedi cynyddu o 11.1 %. Achoswyd y newid hwn fwy na thebyg gan newidiadau sy'n caniatáu i radd orau myfyrwyr o'u cymwysterau iaith neu lenyddiaeth gyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol.

Tabl 13: Canlyniadau TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	9.0	8.9	7.7
A*-A	24.2	24.7	22.6
A*-C	75.1	76.0	76.3
A*-G	99.9	99.8	99.7
Number sat	3,320	3,304	3,671

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau

Tabl 14: Canlyniadau TGAU Llenyddiaeth Gymraeg A*-G (gradd orau myfyrwyr 16 oed)

	2016/2017	2017/2018	2018/2019
A*	8.8	9.0	7.6
A*-A	23.8	24.8	22.6
A*-C	74.7	76.0	76.4
A*-G	99.9	99.8	99.7
Nifer y myfyrwyr	3,449	3,298	3,666

Ffynhonnell: CBAC.
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys. Mae'r data am raddau gorau a gyhoeddwyd gan JCQ yn cynnwys canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU â'r graddau A* i G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yn ogystal â chymwysterau TGAU â'r graddau 9 i 1 a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

TGAU Cymraeg Ail Iaith

Dyfarnwyd TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd am y tro cyntaf yr haf hwn. Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2013, '*Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*', dim ond fel TGAU cwrs llawn y mae'r cymhwyster newydd ar gael ac mae'n disodli'r hen gymwysterau cwrs llawn a chwrs byr mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith a Chymraeg Ail Iaith Gymhwysol. Felly, mae'r garfan a safodd y cymhwyster newydd hwn yn wahanol i'r garfan a safodd yr hen gwrs llawn TGAU.

Mae gan y cymhwyster newydd ddyluniad a ffocws gwahanol o'i gymharu â'r hen gymwysterau. Mae gan y cymhwyster newydd ddwy uned lafar sy'n werth 50% o'i gymharu ag un uned a oedd werth 25% yn yr hen gymhwyster. Mae mwy o ffocws ar sgiliau siarad a gwrando myfyrwyr yn yr unedau llafar newydd hyn nag yn yr hen uned lafar, gan gynnwys eu gallu i ymateb yn ddigymell i sgwrs. Yn ogystal, nid oes asesiad dan reolaeth (gwaith cwrs) yn y cymhwyster newydd ond roedd uned asesu dan reolaeth gwerth 25% yn yr hen gymhwyster.

Eleni, safodd 19,509 o fyfyrwyr y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith cymeradwy, sydd wedi codi o 14,632 y llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond un cymhwyster sydd bellach.

Tabl 15: Canlyniadau TGAU Cymraeg Ail Iaith yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	12.5	9.3	6.8
A*-A	31.1	26.6	21.8
A*-C	79.8	74.8	63.1
A*-G	99.4	98.8	97.3
Nifer yn sefyll yr arholiad	12,296	14,632	19,509

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
D.S. Mae'r ffigurau ar gyfer 2017 a 2018 yn ymwneud â'r hen gymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith. Mae'r ffigurau ar gyfer 2019 yn ymwneud â'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith cymeradwy.
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

Mae'r gostynigad yn y canlyniadau eleni yn adlewyrchu'r newid yng ngharfan yr haf hwn yn dilyn diwedd yr hen gymwysterau a newidiadau yn y strwythur asesu, yn arbennig y ffocws cynyddol ar sgiliau siarad a gwrando bob dydd.

Cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth

Dyfarnwyd y cymwysterau Gwyddoniaeth TGAU diwygiedig am yr eildro'r haf hwn:
TGAU Bioleg, TGAU Ffiseg, TGAU Cemeg, TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl), TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) a TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl).

Bu rhai newidiadau i'r cofrestriadau gwyddoniaeth o gymharu â 2018:

- Mae cofrestriadau TGAU Bioleg, TGAU Ffiseg a TGAU Cemeg i gyd wedi cynyddu
- Mae cofrestriadau TGAU Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl) wedi aros yn sefydlog
- Mae cofrestriadau TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) wedi gostwng tra bod cofrestriadau TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl) wedi cynyddu. Credwn y bu rhywfaint o symud yn y cofrestriadau myfyrwyr rhwng y cymwysterau hyn, er bod y cofrestriadau ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gwobr Sengl) yn dal i fod yn is na 1000.

Tabl 16: Canlyniadau TGAU Bioleg yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	15.8	17.4	18.2
A*-A	41.1	41.1	42.3
A*-C	89.7	88.0	89.2
A*-G	99.5	98.8	98.9
Nifer yn sefyll yr arholiad	6,475	7,071	7,357

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

Tabl 17: Canlyniadau TGAU Cemeg yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	17.3	18.2	20.1
A*-A	42.1	42.5	44.0
A*-C	89.8	89.5	90.4
A*-G	99.7	99.1	99.5
Nifer yn sefyll yr arholiad	6,352	6,845	7,245

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

Tabl 18: Canlyniadau TGAU Ffiseg yr Haf A*-G (pob oedran)

	2017	2018	2019
A*	16.9	18.4	21.9
A*-A	40.5	42.1	43.5
A*-C	90.9	89.4	90.9
A*-G	99.5	99.2	99.6
Nifer yn sefyll yr arholiad	6,336	6,805	6,986

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau

Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

Tabl 19: Canlyniadau TGAU Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl a TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) yr Haf A*A*-GG (pob oedran)

	2018	2019
A*A*	1.5	1.6
A*A*-AA	6.1	6.6
A*A*-CC	50.9	52.2
A*A*-GG	94.6	95.4
Nifer yn sefyll yr arholiad	42,500	42,760

Ffynhonnell: Cyd-bwyllgor Cymwysterau
D.S. Ar gyfer y cymwysterau dwyradd hyn, caiff y cofrestriadau eu cyfrif ddwywaith, oherwydd eu bod yn cael eu cyfrif fel dau gymhwyster TGAU.
Dim ond canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU gradd A*-G a gynlluniwyd ar gyfer Cymru y mae'r data yn eu cynnwys.

Pennu safonau ar gyfer cymwysterau TGAU yn 2019

Mae cymwysterau TGAU wedi cael eu diwygio ar wahân yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ystod y diwygiadau hyn, buom yn gweithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau y rhoddir yr un gwerth i'r cymwysterau TGAU newydd a'u bod yr un mor heriol. Mae cymhwyster TGAU yn dal i fod yn gymhwyster TGAU, p'un a gaiff ei astudio yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Er bod rhai gwahaniaethau yn y cynnwys, y strwythurau asesu a hyd yn oed y graddfeydd graddio, gellir cydnabod mai cymwysterau TGAU yw'r cymwysterau a gaiff eu hastudio gan fyfyrwyr ym mhob gwlad yn y bôn. Maent o'r un maint, cânt eu hastudio gan fyfyrwyr o'r un gallu ac maent yn asesu'r un cynnwys a'r un deilliannau neu rai tebyg iawn ym mhob maes pwnc.

Mae'r dull o ddyfarnu TGAU yr haf hwn wedi bod yn gyson â threfniadau sydd wedi'u hen sefydlu i sicrhau bod safonau wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol. Mae'n sicrhau bod amrywioldeb canlyniadau ar lefel genedlaethol yn gyfyngedig; mae hyn yn amddiffyn safonau ac yn sicrhau tegwch i fyfyrwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n arbennig o bwysig pan fydd cymwysterau'n newid. Er bod amrywioldeb ar lefel genedlaethol yn gyfyngedig, pan fydd newid yn digwydd, ceir mwy o amrywioldeb fel rheol yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol.

Mae byrddau arholi wedi defnyddio data ynghylch sut y gwnaeth carfannau berfformio mewn arholiadau blynyddoedd blaenorol i ragweld sut mae'r garfan yn debygol o berfformio'r haf hwn. Os bydd y garfan sy'n astudio pwnc eleni yn debyg i'r garfan a astudiodd y pwnc y llynedd (ac nad ymddengys fod unrhyw beth arall yn newid), y disgwyliad yw y bydd y canlyniadau gradd cyffredinol ar gyfer y ddwy garfan yn debyg. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y rhagfynegiadau ystadegol hyn ar eu pennau eu hunain. Mae uwch arholwyr yn adolygu gwaith myfyrwyr ar y ffiniau gradd allweddol gan eu cymharu â'r safon a osodwyd yn y gyfres flaenorol i sicrhau ei fod yn briodol. Os ydynt yn barnu nad ydyw, byddant yn symud ffin y radd i farc sy'n adlewyrchu safon waith debyg. Mae hyn yn esbonio pam y gall ffiniau graddau newid o un gyfres arholiad i'r llall.

Y Broses Ddyfarnu

Pan fydd y marcio wedi'i gwblhau, mae'r broses ddyfarnu yn dechrau, lle y pennir ffiniau graddau. Nod y broses ddyfarnu yw sicrhau y cynhelir safonau o flwyddyn i flwyddyn. Mae byrddau arholi yn defnyddio pwyllgor dyfarnu, sy'n cynnwys grŵp o uwch arholwyr sy'n arbenigwyr yn y pwnc hwnnw, i gynnal y broses ddyfarnu.

Mae byrddau arholi yn anelu at ddatblygu papurau cwestiynau gyda'r un lefel o anhawster o flwyddyn i flwyddyn. Yn amlwg, byddai'n annheg i fyfyrwyr gael gradd is dim ond oherwydd eu bod wedi sefyll papur mwy anodd. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn (bron yn amhosibl) llunio papurau arholiad sy'n cynnwys yn union yr un lefel o anhawster. Felly, fel rhan o bob cyfres o arholiadau, caiff ffiniau gradd newydd eu pennu.

Fel rhan o'n dull rheolaidd o gynnal safonau, rydym yn monitro'r broses gosod ffiniau graddau. Cyn cadarnhau dyfarniad cymhwyster, rhaid i'r byrddau arholi roi gwybod i ni am eu canlyniadau. Os yw'r canlyniadau cyffredinol yn sylweddol wahanol i'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl iddynt fod, gofynnwn i'r bwrdd arholi egluro pam. Os nad ydym yn fodlon, gallwn ofyn i'r bwrdd arholi edrych eto ar y dyfarniad neu gynnal dadansoddiad ychwanegol i gadarnhau ei ddyfarniad arfaethedig.

Caiff cymwysterau TGAU eu hasesu mewn ffyrdd gwahanol. Mewn cymwysterau TGAU haenog, mae myfyrwyr yn sefyll papurau arholiad gwahanol gan ddibynnu ar y graddau y maent yn anelu atynt. Mewn cymwysterau TGAU nad ydynt yn haenog, dim ond un papur arholiad sydd i bob myfyriwr, ni waeth pa radd y mae'n anelu ati. Am mai dim ond is-set o'r graddau y mae papurau arholiad haenog yn ei thargedu, mae'n bwysig bod yn ofalus wrth ystyried ffiniau graddau. Er enghraifft, mewn TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd ar yr haen uwch, caiff tua chwarter y cwestiynau eu targedu at bob gradd A *, A, B a C. Dyma pam bod ffiniau graddau ar gyfer gradd C ar bapurau haen uwch yn is nag ar gyfer papurau haen ganolradd neu sylfaenol.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein herthyglau yn yr adran **Arholiadau 360** ar ein gwefan.

Diwygio cymwysterau TGAU yng Nghymru

Y saith pwnc TGAU a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn haf 2019 yw:

Busnes
Cyfrifiadureg
Dylunio a Thechnoleg
Hanes
Astudio'r Cyfryngau
Astudiaethau Crefyddol
Cymraeg Ail Iaith

Mae'r rhain yn dilyn y 21 cymhwyster TGAU newydd a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn 2017 a 2018

Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl)
Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl)
Celf a Dylunio
Bioleg
Cemeg
Drama
Saesneg Iaith
Llenyddiaeth Saesneg
Bwyd a Maeth
Ffrangeg
Daearyddiaeth
Almaeneg
Mathemateg
Mathemateg-Rhifedd
Cerddoriaeth
Addysg Gorfforol
Ffiseg
Sbaeneg
Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)
Cymraeg Iaith
Cymraeg Llenyddiaeth

Rhagor o wybodaeth

Cyhoeddir canlyniadau TGAU llawn gan **JCQ.** Rydym wedi cyhoeddi ffeithluniau am ganlyniadau cymwysterau TGAU eleni (dolen). Mae rhagor o wybodaeth am arholiadau ar gael yn yr adran **Arholiadau 360** ar ein gwefan